

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

Clinig Cosmetig Defy Time

Dyddiad arolygu: 12 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Cosmetig Defy Time ar 12 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Cawsom sicrwydd bod Clinig Cosmetig Defy Time yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd sy'n addas i roi triniaethau laser/golau pwls dwys.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, gyda phob un ohonynt yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog neu'n dda iawn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gallai cleifion wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl
- Roedd nodiadau a chofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda
- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser/golau pwls dwys (IPL) yn briodol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol
- Cwblhau hyfforddiant tân er mwyn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar a gweithdrefnau tân yn gyfredol
- Adolygu a diweddarau'r prosesau sydd ar waith i gleifion roi adborth er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r datganiad o ddiben
- Adolygu a diweddarau'r gweithdrefnau recriwtio a chadw staff er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Clinig Cosmetig Defy Time wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol i ddarparu gwasanaethau laser/golau pwls dwys (IPL) yn 466 Heol Gŵyr, Cilâ, SA2 7DZ.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ag AGIC ar 1 Chwefror 2016.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi un gweithredwr laser/golau pwls dwys, sef y rheolwr cofrestredig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflogi tri aelod o staff sy'n gweithio yn y dderbynfa.

Darperir amrywiaeth eang o wasanaethau i gleifion dros 18 oed, sy'n cynnwys y canlynol:

Laser Main CO2 Deka SmartXide ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Creithiau acne
- Creithiau hypertronig
- Creithiau celoid
- Smotiau haul
- Melasma
- Niwed difrifol gan yr haul
- Dafadennau seborrhëig

Laser Lyra Nd:Yag Laserscope ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew / gwallt yn hirdymor
- Briwiau fasgwlaidd gwythiennol glas a gwythiennau ar yr wyneb
- Gwythiennau ar y coesau

Laser Aura KTP Laserscope ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwythiennau coch ar yr wyneb
- Acne rhosynnaidd
- Acne

- Pigmentiad arwynebol
- Dafadennau pigmentog
- Tagiau'r croen
- Dafadennau

IPL Energist I-Pulse ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew / gwallt yn hirdymor
- Gwythiennau ar yr wyneb
- Smotiau haul
- Niwed difrifol neu gymedrol gan yr haul / dermatoheliosis
- Acne.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Roedd adborth y cleifion yn yr holiaduron AGIC yn nodi bod y gwasanaeth yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Rydym wedi gofyn i'r gwasanaeth adolygu ei systemau ar gyfer casglu adborth gan gleifion, gan fod y rhan fwyaf o adborth gan gleifion o'r holiaduron AGIC yn cadarnhau nad oedd y gwasanaeth wedi holi eu barn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn a nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r awyrgylch a'r bobl yn garedig iawn a dw i'n ymlacio yma"

"Dw i wedi bod yn dod yma ers 10 mlynedd . Mae'n wych"

"Mae Alan Jones yn wych ac mae ymweld â'r gwasanaeth yn donig i mi, yn feddyliol ac yn gorfforol. Mae'r staff yn wych a dw i'n teimlo fel fy mod i'n ymweld â ffrindiau"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol a bod y ffurflen yn cael ei diweddarw ar adeg pob triniaeth ddilynol, sy'n cadarnhau a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol. Mae hyn yn dilyn canllawiau arferion gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn cwblhau ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn gwirio eu hanes meddygol, cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno iddynt gael eu trin ag urddas a pharch gan y rheolwr cofrestredig ac yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster eu hunain bob amser yn ystod apwyntiadau.

Dywedodd y staff wrthym, lle y bo'n berthnasol, y byddent yn sicrhau na fyddai neb yn yr ystafell pe byddai angen i glaf newid/dadwisgo, ac y caiff tywelion urddas eu darparu. Mae'r drws i'r ystafell driniaeth bob amser ar glo yn ystod triniaeth er mwyn cynnal urddas y claf cyn ac yn ystod y driniaeth.

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth a/neu'r ystafell ymgynghori er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cleifion yn gallu dod â hebryngwr (aelod benywaidd o staff) i'w cefnogi os oedd angen.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod yr holl gleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth laser/IPL. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddynt. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn triniaeth. Hefyd, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cael cydsyniad ysgrifenedig cyn y driniaeth gychwynnol ac yn ystod unrhyw apwyntiadau dilynol. Fodd bynnag, nododd yr un faint o gleifion a gwblhaodd holiadur a atebodd "ddim yn gymwys" neu "do" pan ofynnwyd iddynt a oedd angen iddynt lofnodi ffurflen gydsynio er mwyn dangos eu bod yn deall y manteision a'r risgiau cysylltiedig cyn iddynt gael unrhyw driniaeth. Byddai hyn yn awgrymu bod hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur naill ai heb roi cydsyniad ysgrifenedig i driniaeth neu nad oeddent yn ymwybodol eu bod wedi gwneud hynny.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn cynnwys tystiolaeth o gysyniad wedi'i lofnodi, a dywedodd y staff wrthym fod dod yn ôl a chael triniaeth yn fath o gydsyniad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y staff am ystyried gofyn i bob claf lofnodi'r ffurflen gydsynio ar adeg pob apwyntiad er mwyn sicrhau bod y cleifion yn deall y broses hon. At hynny, dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi cydsyniad y gwasanaeth yn adlewyrchu'r weithdrefn hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

O ganlyniad i'r cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC am gydsyniad, dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu gweithdrefn y gwasanaeth ar gyfer cael cydsyniad er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall y broses hon a bod ei bolisi'n adlewyrchu'r weithdrefn yn glir.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad, a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth, lawn gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben¹ i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwnaethom argymhell y

¹ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

dylid diweddaru'r ddogfen er mwyn iddi gynnwys cymwysterau a phrofiad perthnasol y rheolwr cofrestredig.

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth ac yn cynnwys y meysydd hynny sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwnaethom argymhell y dylid diweddaru'r ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion. Roedd y canllaw i gleifion mewn ffolder yn yr ardal aros.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru datganiad o ddiben y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cymwysterau a phrofiad perthnasol y rheolwr cofrestredig, ac anfon copi i AGIC.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod rhaid i'r cleifion gytuno i gael prawf clytiau cyn cael triniaethau penodol er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oedd hyn yn berthnasol. Fodd bynnag, cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd y cwestiwn ei fod wedi cael prawf clytiau cyn cael triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelwyd tystiolaeth bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon dda, sy'n golygu bod diogelwch a llesiant y cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gofal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae Clinig Cosmetig Defy Time wedi'i leoli ar y llawr gwaelod, ac mae'n hawdd i gleifion â phroblemau symudedd ei gyrraedd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd llyfr awgrymiadau/sylwadau ar gael yn yr ardal aros a ddefnyddir i gasglu adborth gan y cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod rhai o'r sylwadau'n cael eu

dangos ar wefan y gwasanaeth i hyrwyddo adborth gan y cleifion am y gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion yn rhoi adborth ar lafar a/neu drwy gardiau diolch. Er bod y gwasanaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon, nid oedd system ffurfiol ar waith i'w chasglu na'i dadansoddi er mwyn nodi unrhyw themâu neu dueddiadau.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn ceisio eu barn am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi y bydd y clinig yn dosbarthu holiaduron blynyddol a rheolaidd i gleifion er mwyn ceisio eu barn. Felly, gwnaethom argymhell y dylid adolygu a gwella'r maes hwn er mwyn iddo fod yn gyson â'r datganiad o ddiben.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a gwella'r ffyrdd o gasglu adborth gan gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r datganiad o ddiben.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol ac yn bodloni'r rheoliadau er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion a oedd yn ymweld â'r clinig.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Roedd y peiriannau laser/IPL yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriant.

Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel a dibynadwy. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn ymddangos yn lân ac yn daclus.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle. Cwblhawyd gwiriad diogelwch nwy ac roedd gwiriad o wifrau trydanol yr adeilad wedi cael ei gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r clinig yn ddigonol pe bai tân. Roedd arwyddion priodol yn dangos yr allanfeydd tân, ac roedd dyfeisiau diffodd tân ar gael yn yr adeilad ac yn cael eu gwasanaethu er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau yn 2017. Roedd y ddogfen yn nodi y dylid adolygu'r asesiad bob blwyddyn. Felly, gwnaethom argymhell y dylid ei adolygu a'i ddiweddarau yn unol â'r amserlenni a restrir.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal nac ychwaith fod y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant diogelwch tân. Rydym yn argymhell y dylai hyfforddiant diogelwch tân ac ymarferion tân gael eu cynnal a'u cofnodi er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf gan

y rheolwr cofrestredig o ran defnyddio'r cyfarpar diogelwch tân a gweithdrefnau brys.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd rhywfaint o'i gynnwys yn hen, a gofynnwyd i'r staff adolygu'r cynnwys er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn aros yn ddiogel ac yn effeithiol i'w ddefnyddio.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau priodol y dylid eu dilyn mewn argyfwng megis pe bai claf yn llewygu. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) ac roedd diffibriliwr ar gael iddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal ymarferion tân a hyfforddiant diogelwch tân er mwyn sicrhau bod ei sgiliau a'i wybodaeth o ran defnyddio cyfarpar diogelwch tân a gweithdrefnau yn gyfredol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r asesiad risg tân yn unol â'r amserlen flynyddol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn y clinig, a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau ac yn gyson â'r gweithdrefnau a amlinellir yn ei bolisi rheoli heintiau. Soniwyd wrthym am y trefniadau ar gyfer glanhau cyfarpar rhwng cleifion; gwelsom gcontract â chwmni glanhau allanol a'r llyfr a ddefnyddir i drosglwyddo negeseuon penodol iddynt. Nid oedd unrhyw amserlenni glanhau yn cael eu cadw a gwnaethom awgrymu y dylai'r gwasanaeth ystyried gwneud hyn.

Dywedodd y staff wrthym fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu unrhyw wastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru drwy drin cleifion 18 oed ac yn hŷn yn unig.

Gwelsom fod polisi diogelu ar waith, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Roedd y polisi hefyd yn

cynnwys manylion cyswllt sefydliadau perthnasol y gellid cysylltu â nhw yn ôl yr angen. Gwnaethom argymhell y dylid ychwanegu manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol at y polisi er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am bryderon yn briodol.

Ar adeg ein hymweliad, roedd y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi dod i ben – mae angen iddo wneud yr hyfforddiant hwn eto. .

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant diogelu cyfredol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth i'r peiriant laser/IPL gael ei ddefnyddio yn y clinig. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y peiriannau laser/IPL wedi cael eu gwasanaethu a'u calibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl
- roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cymorth arbenigol ar ddiogelwch gosodiad y peiriant laser a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd
- roedd rheolau lleol cynhwysfawr² a ddatblygwyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar waith a oedd yn disgrifio sut i ddefnyddio'r peiriannau laser/IPL yn ddiogel, ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi eu llofnodi i ddangos ei fod yn ymwybodol ohonynt ac yn cytuno i ddilyn y rheolau hyn

²Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

- roedd protocolau meddygol ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau y caiff triniaeth ei rhoi mewn ffordd ddiogel i gleifion, ac roeddet wedi cael eu goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwnaethom argymhell y dylid ychwanegu dalen flaen at y protocolau meddygol er mwyn dangos yn glir y dyddiad y cawsant eu hadolygu a bod yr ymarferydd meddygol wedi'u llofnodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ychwanegu tudalen flaen at y protocolau meddygol er mwyn dangos yn glir y dyddiad y cawsant eu hadolygu a dyddiad yr adolygiad nesaf

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)³ i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriannau laser/IPL, gan ei fod wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴.

Gwelsom fod sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n benodol ar gyfer cryfder y peiriannau laser/IPL ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon a oedd yn cael eu cymryd wrth roi triniaeth; mae arwydd y tu allan i ddrws yr ystafell driniaeth yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y risg y bydd laserau yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r ystafell driniaeth. Mae'r ystafell driniaeth yn cael ei chloi er mwyn atal unigolion

³ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices](#)

⁴ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau laser yn ddiogel

anawdurdodedig rhag dod i mewn yn ystod triniaethau ac mae'r peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser er mwyn atal defnydd anawdurdodedig.

Gwelsom dystiolaeth bod yr LPA wedi cwblhau asesiad risg er mwyn nodi unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriannau laser/IPL ac amgylchedd yr ystafell driniaeth. Nid oedd yr asesiad risg yn nodi unrhyw gamau yr oedd angen eu cymryd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gan y rheolwr cofrestredig systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Er enghraifft, roedd archwiliadau gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod safonau'n aros yn uchel.

At hynny, roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i amddiffyn iechyd, lles a diogelwch y cleifion a phobl eraill sy'n ymweld â'r clinig.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod atynt.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau priodol ar gyfer cadw cofnodion yn y clinig, gan gynnwys nodiadau manwl am gleifion a oedd o ansawdd da. Roedd cofrestr triniaethau cleifion ar gael, a oedd yn cefnogi'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd i'r cleifion. Gwnaethom argymhell y dylid ychwanegu pa ran o'r corff a gafodd ei thrin at bob cofrestr/llyfr.

Roedd yr holl gofnodion mewn perthynas â'r peiriannau laser/IPL ac amgylchedd yr adeilad yn drefnus ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ychwanegu pa ran o'r corff a gafodd ei thrin at bob cofrestr/llyfr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau a oedd wedi cael eu diweddarau yn unol â'r rheoliadau.

Roedd gweithdrefn cwynion ar waith er mwyn sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Clinig Cosmetig Defy Time ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, a'r unigolyn hwn yw'r unig weithredwr laser/golau pwls dwys.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn hygyrch, a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y polisiâu hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn amddiffyn y clinig rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â gofynion rheoliadol. Mae crynodeb o'r weithdrefn cwynion wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion.

Nid oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion, ond soniodd y staff wrthym am y system y byddent yn ei defnyddio i gofnodi a rheoli unrhyw bryderon a chwynion ffurfiol sy'n dod i law.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig, fel unig weithredwr awdurdodedig y peiriannau laser/golau pwls dwys, wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth. Roedd hefyd wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser/golau pwls dwys.

Soniodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y rhaglen hyfforddiant, a oedd yn sicrhau ei fod yn cynnal ei sgiliau a'i wybodaeth am nifer o feysydd.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Y rheolwr cofrestredig yw'r unig berson sy'n gweithredu'r peiriannau laser/golau pwls dwys. Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel.

Er bod y gwasanaeth yn cyflogi staff derbynfa, nid oedd unrhyw ffeiliau staff ar waith ac nid oedd unrhyw arfarniadau wedi'u cwblhau. Gwnaethom argymhell y dylid adolygu a gwella'r prosesau arfarnu a recriwtio yn unol â gofynion y rheoliadau a'r safonau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflogi unigolion addas gyda chymysgedd priodol o sgiliau a gwybodaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei brosesau recriwtio a chadw staff er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysylltu a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Cosmetig Defy Time

Dyddiad arolygu: 12 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
O ganlyniad i'r cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC am gydsyniad, dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu gweithdrefn y gwasanaeth ar gyfer cael cydsyniad er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall y broses hon a bod ei bolisi'n adlewyrchu'r weithdrefn yn glir.	Rheoliad 9 (4) (b)			
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau datganiad o ddiben y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cymwysterau a phrofiad perthnasol y rheolwr cofrestredig, ac anfon copi i AGIC	Rheoliad 6 (1) Atodlen 1 (3)			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion	Rheoliad 7 (1) (e)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a gwella'r ffyrdd o gasglu adborth gan gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r datganiad o ddiben.	Rheoliad 19 (2) (b) (i)			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal ymarferion tân a hyfforddiant diogelwch tân er mwyn sicrhau bod ei sgiliau a'i gwybodaeth o ran defnyddio cyfarpar diogelwch tân a gweithdrefnau yn gyfredol.	Rheoliad 26 (4) (c) a (d)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r asesiad risg tân yn unol â'r amserlen flynyddol, a sicrhau bod asesiad cyfredol yn cael ei gynnal yn unol â'r cyngor hwn	Rheoliad 26 (4) (e) ac (f)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys	Rheoliad 15 (1) (b)			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
manylion y tîm diogelu lleol ac mae'n rhaid iddo gwblhau hyfforddiant diogelu.				
Dylai'r rheolwr cofrestredig ychwanegu tudalen flaen at y protocolau meddygol er mwyn dangos yn glir y dyddiad y cawsant eu hadolygu a dyddiad yr adolygiad nesaf	Rheoliad 15 (1) (c)			
Dylai'r rheolwr cofrestredig ychwanegu pa ran o'r corff a oedd yn cael ei thrin at bob cofrestr/llyfr.	Rheoliad 23 (3), Rhan II i atodlen 3			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei brosesau recriwtio a chadw staff er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau.	Rheoliad 20 (1) (a) (2) (a) (c) a Rheoliad 21 (2) (d)			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: